# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion y cyfarfod blynyddol gynhaliwyd yn **Neuadd Goffa Penmorfa** ar y **8fed o Fai, 2025** am **7:00 yr hwyr.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Croesawu'r Cyhoedd | Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol. |
| 2. | Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd | Cynigwyd Richard Williams i barhau fel Cadeirydd a cynigwyd John Till fel Is-gadeirydd. Roedd pawb yn gytûn. |
| 3. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), John Jones (Garndolbenmaen), Huw Pritchard , Raymond Jones (Pentrefelin), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards (Penmorfa), Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) |
| 4. | Ymddiheuriadau: | Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd), Clifford Williams, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Jess Williams (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg) |
| 5. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 6. | Datgan cywirdeb cofnodion cyfarfod blynyddol 2024 | Richard Parry yn cynnig eu bod yn gywir a Megan Lloyd Williams yn eilio |
| 7. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion | Dim |
| 8. | Adroddiad Blynyddol y Cyngor | Cyflwynodd y Clerc adroddiad o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Diolchwyd i'r Clerc am ei adroddiad manwl. Bydd yr adroddiad ar gael ar y wefan i'r cyhoedd. |
| 9. | Cynllun Hyfforddiant | Adolygwyd pwy oedd wedi mynychu hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf. Adroddwyd fod EE (Garn) wedi mynychu dau sesiwn hyfforddiant, Cynefino i gynghorwyr newydd (14/08/24) a Chod Ymddygiad (24/09/24). Soniwyd bod yna gyrsiau hyfforddiant ar Sgiliau Cadeirio ar gael petai unrhyw ddiddordeb. Clerc i holi os yw'r cwrs yma ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac i adael i JT wybod am unrhyw ddyddiadau. |
| 10. | Mabwysiadu Polisïau'r Cyngor | Penderfynwyd mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog, Cod Ymddygiad, Cynllun Cyhoeddi, Rheoliadau Ariannol a'r Cynllun Iaith. Soniodd y Clerc bod yna ganllawiau Rheoliadau Ariannol newydd ac y bydd angen adolygu'r canllawiau presennol yn y flwyddyn nesaf. |
| 11. | Aelodaeth Is-bwyllgorau | Penderfynwyd cynnwys Raymond Jones ar Is-bwyllgor Eiddo am nad oes cynrychiolaeth o Bentrefelin ar y Pwyllgor yn dilyn ymddiswyddiad Sarah Jones y llynedd. Mae'r manylion ar gael ar ein gwefan. |
| 12. | Unllais Cymru | Megan Lloyd Williams i barhau i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor yma ac fe gynhigiwyd Enid Egginton fel ail gynrychiolydd. |
| 13. | Llawr yn agored | Dim |